

## Ni yw'r Dyfodol Rheolwr Prosiect Cynorthwyol Disgrifiad Swydd

<b>Teitl swydd:</b>	Rheolwr Prosiect Cynorthwyol
<b>Adrodd i:</b>	Cynhyrchydd y Prosiect
<b>Contract:</b>	Contract Llawrydd
<b>Cyflog/Ffi</b>	£5,250 am 35 diwrnod @£150/diwrnod
<b>Oriau:</b>	Dyddiau i'w gweithio'n hyblyg rhwng Mawrth – Gorffennaf 2022
<b>Man gwaith:</b>	Eich prif weithle fydd Canolfan Gelfyddydau Melville yn y Fenni. Bydd y systemau gweinyddol a chefnogaeth sefydliadol drwy Theatr y Borough.

### Diben y swydd:

Mae Ni yw'r Dyfodol yn brosiect ymchwil a datblygu uchelgeisiol yn seiliedig yn y Fenni a Gogledd Sir Fynwy. Caiff y prosiect ei gyflwyno mewn partneriaeth rhwng Theatr y Borough a Theatr Melville ac mae'n anelu cysylltu gyda a chrynhoi ysbryd creadigol pobl ifanc yn yr ardal. Drwy weithio partneriaeth a chonsortwm, rydym eisiau rhoi pobl ifanc wrth ganol dyluniad a datblygiad y prosiect.

Bwriad y prosiect yw dod â ieuencid Gogledd Sir Fynwy ynghyd i leisio eu safbwyntiau, i ddynodi'r profiadau a'r pryderon a rannant a gweithio ar syniadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r prosiect yn hyrwyddo perchnogaeth o farn/sylwadau unigol a rhannu creadigrwydd.

Rydym yn edrych am Reolwr Prosiect Cynorthwyol brwdfrydig a galluog i gymryd nifer o agweddau rheoli prosiect a gweinyddol y prosiect. Byddwch yn gweithio'n agos gyda Chynhyrchydd y Prosiect a chynorthwyo wrth reoli gwahanol linyddau prosiect yn cynnwys dulliau celf traws-genre tebyg i, ond nid yn unig, Cerddoriaeth, Theatr, Celfyddydau Gweledol, Ffilm a Thechnolegau Digidol, Dawns.

Bydd y tasgau yn cynnwys rheoli agweddau cynllunio prosiect tebyg i drefnu amserlenni, cyfathrebu a gweinyddu prosiect, yn ogystal â chefnogi'r Hwyluswyr Creadigol a chynllunio pen llanw'r prosiect, Gŵyl Celfyddydau Ieuencid a gynhelir dros benwythnos Gŵyl Banc y Jiwbilli.

### Mae pum cyfnod i'r prosiect:

#### 1: Datblygu Prosiect

Byddwch yn ymwneud â holl agweddau cynllunio y prosiect, mynychu cyfarfodydd cynllunio a gweithdai artistiaid, cyfathrebu gydag ysgolion a grwpiau cymunedol, gan weithio gyda'r rhwydwaith fwy o sefydliadau ieuencid a diwylliannol y gall ac y mae pobl ifanc yn cael mynediad i gyfleoedd diwylliannol o ysgolion i fandiau pres, clybiau ieuencid i sgowtiaid a geidiaid, corau ieuencid amatur i ysgolion dawns proffesiynol.

#### 2: Ymgysylltu

Byddwch yn trefnu digwyddiadau trafod a gweithdai gyda phobl ifanc a chefnogi eraill sy'n gwneud hynny, gan gadw llygad agos ar iechyd a diogelwch, rheoli amser a phresenoldeb. Byddwch yn rhan hanfodol o dîm, gan gynhyrchu digwyddiadau blasu a gweithdai i ddenu pobl ifanc i gymryd rhan yn y prosiect.

#### 3: Ymchwilio

Byddwch yn cynorthwyo ac yn cefnogi gweithgaredd sy'n adeiladu sgiliau diwydiant creadigol sy'n caniatáu ystyried, ymchwilio, dadansoddi a sylw ar bynciau a themâu a ddynodwyd yn y cyfnod blaenorol.

#### **4: Dod Ynghyd**

Penllanw'r gwaith fydd Gŵyl Celfyddydau Ieuentid a gynhelir dros Benwythnos Gŵyl Banc y Jiwbilf (2 i 5 Mehefin 2022). Byddwch yn cymryd rhan egniol wrth drefnu'r fframweithiau a digwyddiadau i arddangos y sgiliau, gweithgaredd diwylliannol a dyheadau'r bobl ifanc. Wedi'i lunio gan broses y prosiect, gall y fformat fod yn ŵyl gelfyddydau fach, cyfres o berfformiadau neu arddangosiadau, cynhadledd ieuentid leol, digwyddiad cymryd tref drosodd neu benwythnos gweithgareddau celf.

Bydd hefyd yn gyfle i fwrw golwg ar y prosiect ei hun a rhoi syniadau ar gyfer datblygiadau a gweithgaredd y dyfodol.

#### **5: Gwerthuso**

Fel Rheolwr Prosiect Cynorthwyol, disgwylir i chi ymgysylltu gyda a bwydo i broses werthuso y prosiect.

#### **Tasgau a chyfrifoldebau allweddol:**

- Cefnogi Cynhyrchydd y Prosiect gyda gweinyddiaeth, cynllunio prosiect a chyflawni'r prosiect
- Cefnogi'r tîm creadigol yn eu gwaith, yn cynnwys cefnogi'r broses creadigol a chyflenwi prosiect
- Cyfathrebu'n glir gyda'r tîm creadigol, ysgolion a grwpiau cymunedol yn ogystal â phartneriaid prosiect a rhanddeiliaid
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cyfryngau Cymdeithasol i sicrhau y defnyddir sianeli cyfryngau cymdeithasol yn effeithlon i recriwtio a chyfathrebu gyda'r sawl sy'n cymryd rhan
- Mynychu gweithdai ac ymarferion drwy gydol y prosiect, gan roi sylw i brotocolau lechyd a Diogelwch, Diogelu, Diogelwch Covid a rheoli amser
- Cydymffurfio â pholisïau Cyngor Sir Fynwy fel sydd angen.

#### **Meini Prawf Hanfodol**

- Profiad o reoli prosiectau celfyddydau ieuentid cynhwysol a phrosiectau gyda ffocws ar y cyfranogwyr
- Profiad o reoli prosiect celfyddydau
- Profiad o weithio o fewn y gweithgaredd diwylliannol gwirfoddol ac amatur
- Gwybodaeth o seilwaith sector celfyddydau/diwylliannol Cymru
- Profiad o drefnu prosiectau creadigol cynhwysol gydag elfennau lluosog
- Lefel uchel o lythrennedd cyfrifiadur gyda meddalwedd prosesu geiriau, taenlenni a chyflwyniad
- Gallu i deithio o amgylch Gogledd Sir Fynwy
- Parodrwydd i weithio ar benwythnosau a gyda'r nos pan fo angen
- Gwybodaeth waith a gallu i weithio o fewn polisïau diogelu presennol
- Dealltwriaeth o'r cyfryngau cymdeithasol a gofynion llwyfannau ar-lein
- Gwiriad DBS cyfredol

#### **Meini Prawf Dymunol:**

- Gallu i siarad a chyfathrebu yn y Gymraeg
- Agwedd gallu gwneud a gallu i ddefnyddio eich cymhelliant eich hun.

### **Sut i Wneud Cais:**

Darllenwch y disgrifiad swydd a'r fanyleb person islaw ac anfon eich CV a llythyr egluro yn dweud pam fod y rôl o ddiddordeb i chi a sut mae eich sgiliau'n cyfateb gyda'r hyn yr edrychwn amdano.

Anfonwch bopeth at Gynhyrchydd y Prosiect: [asa.malmsten@coachcreate.co.uk](mailto:asa.malmsten@coachcreate.co.uk)  
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 12.00 canol-dydd ddydd Gwener 4 Chwefror 2022.

Cynhelir cyfweiliadau ddydd Mawrth 8 Chwefror 2022.

Gobeithiwn gwblhau'r broses recriwtio erbyn 11 Chwefror gyda golwg ar gael Rheolwr Prosiect Cynorthwyol yn ei swydd o fis Mawrth 2022.

Os oes gennych unrhyw ofynion mynediad arbennig i'ch galluogi i wneud cais am y rôl, gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda drwy anfon e-bost at Gynhyrchydd y Prosiect:  
[asa.malmsten@coachcreate.co.uk](mailto:asa.malmsten@coachcreate.co.uk)